

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 14 Hydref 2016

STATWS: GWYBODAETH

CATEGORI: POLISI

Teitl:

Canllawiau diwygiedig ar gyfer trosglwyddo oedolion sy'n ddifrifol wael

Dyddiad adolygu

Yn flynyddol, neu'n ôl yr angen

I'w weithredu gan:

Y Byrddau a'r Ymddiriedolaethau Iechyd

Camau i'w cymryd erbyn:

1 Tachwedd 2016

Anfonir gan:

Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol

Enw(au) Cyswllt AIGC yn Llywodraeth Cymru:

Caroline Lewis, Tîm Polisi Cyflyrau Iechyd Difrifol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: 02920 823953 E-bost: majorhealthconditionspolicyteam@wales.gsi.gov.uk

Dogfen(nau) amgaeedig: gweler y dolenni

Crynodeb

1. Diben y Cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at gyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar gyfer trosglwyddo oedolion sy'n ddifrifol wael. Mae wedi'i lunio gan y rhwydweithiau gofal critigol.
2. Mae'r canllawiau hyn yn disodli dogfen flaenorol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Cynllun Oes: Canllawiau Cymru ar gyfer Trosglwyddo Oedolion sy'n Ddifrifol Wael, a gyhoeddwyd yn 2009 gyda'r llythyr gweinidogol EH/ML/0010/09.

Gweithredu

3. Disgwylir i'r Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, lle bo'n briodol, weithio gyda'r rhwydweithiau gofal critigol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r canllawiau diwygiedig.

Cefndir

4. Cyhoeddwyd Canllawiau Cymru ar gyfer trosglwyddo oedolion sy'n ddifrifol wael am y tro cyntaf ym mis Ebrill 2009. Mae'r canllawiau'n nodi'r prif gamau gweithredu i osod y trywydd ac arwain y gwaith o drosglwyddo cleifion sy'n ddifrifol wael ar draws Cymru. Roedd y canllawiau'n gymorth i sicrhau bod y gwasanaethau trosglwyddo ar gyfer oedolion sy'n ddifrifol wael yn gyson, a bod y cleifion yn cael y gofal gorau posibl, gan arwain at wella ansawdd y gwasanaeth a gostwng yr anghydraddoldeb o ran gofal ledled Cymru.
5. Er mwyn trosglwyddo claf sy'n ddifrifol wael rhaid i amryw o asiantaethau gydweithredu, gan gynnwys adrannau gwahanol o'r gwasanaeth iechyd, y gwasanaeth ambiwlans ac weithiau'r gwasanaeth chwilio ac achub. Mae'r canllawiau hyn yn egluro rolau, galluedd a chyfrifoldebau'r asiantaethau sy'n rhan o'r gwaith o drosglwyddo cleifion sy'n ddifrifol wael. Ers cyhoeddi'r canllawiau gwreiddiol, mae'r gwasanaethau wedi gweld newid mawr er enghraifft wrth gonaethio gwasanaethau chwilio ac achub a sefydlu'r Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS). Mae'r canllawiau hyn wedi cael eu diweddarau gan roi ystyriaeth i'r newidiadau hyn.

Canllawiau diwygiedig Cymru ar gyfer trosglwyddo oedolion sy'n ddifrifol wael

6. Mae'r canllawiau diweddaraf i'w gweld yng nghanllaw Rhwydwaith Gofal Critigol Cymru ar gyfer trosglwyddo oedolion sy'n ddifrifol wael. Bydd y ddogfen hon yn disodli dogfen Llywodraeth Cymru, Cynllun Oes: Canllawiau Cymru ar gyfer trosglwyddo oedolion sy'n ddifrifol wael. Ei nod yw cysoni'r weithdrefn hon trwy egluro rolau, galluedd a chyfrifoldebau.

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=753&pid=36561>

7. Mae'r canllawiau trosglwyddo diwygiedig fwyaf perthnasol i oedolion sy'n ddifrifol wael ar Lefel 2 a 3, ond efallai y bydd rhaid ystyried cleifion ar Lefel 1 o dan rai amgylchiadau, ee cleifion y galon sy'n cael eu trosglwyddo ar gyfer Ymyriad Coronaidd Sylfaenol drwy'r Croen (PPCI).

Diffinir y lefelau gofal critigol yn y cynllun cyflawni ar gyfer oedolion sy'n ddifrifol wael.

8. Mae'r canllawiau'n ymwneud â throsglwyddiadau sy'n digwydd y tu allan i Adran Gofal Critigol, boed hynny'n fewnol (o fewn yr un ysbyty) er enghraifft i'r sganiwr CT, neu'n allanol (i ysbyty arall) a elwir yn drosglwyddiadau eilaidd. Gallai throsglwyddiadau o'r fath ddeillio o'r Uned Gofal Critigol, yr Adran Frys neu'r wardiau weithiau.
9. Rhaid i'r Rhwydwaith Gofal Critigol a Thrawma, y Byrddau Iechyd, EMRTS, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a'r Gwasanaeth Chwilio ac Achub gydweithio er mwyn cyrraedd y nod gyffredin o drosglwyddo cleifion sy'n ddifrifol wael yn ddiogel.
10. Rhaid i bob ysbyty aciwt gael trefn benodol yn ei lle ar gyfer adfywio, sefydlogi a chludo cleifion sy'n ddifrifol wael beth bynnag fo'r lefel/haen o ofal y mae'r ysbyty'n ei ddarparu.
11. I gael rhagor o wybodaeth neu gymorth cysylltwch â Sue O'Keeffe, Rheolwr y Rhwydwaith Gofal Critigol a Thrawma (Gogledd) ar 01745 448586 est: 2282 neu e-bost: Sue.O'Keeffe@wales.nhs.uk.

I'w ddsbarthu i'r canlynol:

Ysgrifenyddion, Prif Weithredwyr a Chadeiryddion y Byrddau/Ymddiriedolaethau canlynol:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Ysgrifennydd y Grŵp o Ysgrifenyddion Bwrdd
Rheolwr Gyfarwyddwr Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Cyfarwyddwr Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys Cymru
Prif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans
Aelodau'r Grŵp Gweithredu Gofal Critigol

Cyfarwyddwyr Meddygol a Thimau Gofal Critigol y canlynol:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Llywodraeth Cymru

Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru
Tîm Gweithredu AIGC
Tîm Cyfathrebu AIGC
Y Prif Swyddog Meddygol
Y Prif Swyddog Nyrsio
Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Ddigidol, Newid ac Arloesi
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflyrau Iechyd Difrifol
Penaethiaid gofal mewn argyfwng a gofal heb ei drefnu